# Sut mae Ofcom yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth

Newidiadau i ganllawiau a gofynion

**DATGANIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 18 Ebrill 2023

# 1. Trosolwg

Ym mis Tachwedd, fe wnaethom ni gyhoeddi ymgynghoriad ar sut mae Ofcom yn rheoleiddio effaith y BBC ar gystadleuaeth. Roedd hwn yn nodi cynigion i newid ein canllawiau ynghylch sut mae effaith y BBC ar gystadleuaeth yn cael ei hasesu, ac i osod gofyniad ar y BBC i roi cyhoeddusrwydd i newidiadau arfaethedig i'w wasanaethau cyhoeddus. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn dilyn ein hadolygiad o Sut mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022 ('adolygiad mis Mehefin').

Mae'r ddogfen hon yn nodi ein penderfyniad i wneud newidiadau i'n canllawiau, ac i osod gofyniad newydd ar gyhoeddi newidiadau arfaethedig. Bydd y newidiadau hyn yn annog mwy o dryloywder gan y BBC ynghylch newidiadau i'w wasanaethau cyhoeddus, yn ogystal ag annog ymgysylltiad cadarnhaol rhwng y BBC a rhanddeiliaid y mae hyn yn effeithio arnynt. Rydym hefyd yn egluro sut bydd ein prosesau'n cefnogi tryloywder.

Ar ben hynny, rydym yn nodi ein safbwyntiau ar y diweddariadau mae'r BBC yn eu gwneud i'w brosesau i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yn ein hadolygiad o BBC Studios, yn ogystal â'n penderfyniadau ar newidiadau i'r gofynion a'r canllawiau Masnachu a Gwahanu. Rydym wedi diweddaru'r rhain i sicrhau bod ein rheolau'n glir ac yn dal y BBC i gyfrif yn effeithiol.

Ym mis Tachwedd, roeddem hefyd wedi rhoi ein barn ar sefyllfa'r BBC yn y sectorau clyweledol a sain, a sut rydym yn debygol o fynd ati i ystyried effeithiau ar gystadleuaeth. Roedd rhanddeiliaid wedi gwneud nifer o sylwadau i ymateb i'n dadansoddiad a'n safbwyntiau, ac rydym wedi ymateb i'r rhain yn y ddogfen hon.

### Ein penderfyniadau – yn gryno

Rydym yn gosod **gofyniad newydd i'r BBC roi cyhoeddusrwydd i'r newidiadau i'w wasanaethau cyhoeddus sy'n debygol o fod yn destun asesiad perthnasedd**. Bwriad hyn yw annog y BBC i fod yn fwy tryloyw gyda rhanddeiliaid am ei gynlluniau, ac i fod yn fwy cyson ynghylch sut mae'n gwneud y rhain yn gyhoeddus.

Rydym hefyd yn gwneud y **newidiadau canlynol i'n canllawiau ar sut mae newidiadau i wasanaethau cyhoeddus y BBC yn effeithio ar gystadleuaeth**:

- Esbonio sut dylai dull rhesymol a chymesur o ymgysylltu yn ystod y broses perthnasedd edrych, er mwyn cefnogi deialog fwy agored rhwng rhanddeiliaid a'r BBC ynghylch newidiadau i wasanaethau cyhoeddus y BBC;
- Gosod disgwyliadau cliriach ynghylch y wybodaeth y dylai'r BBC ei darparu i randdeiliaid pan fydd yn ymgynghori fel rhan o brawf budd y cyhoedd, er mwyn helpu i sicrhau bod y BBC yn darparu digon o wybodaeth i alluogi rhanddeiliaid i ymateb yn ystyrlon;
- Darparu rhagor o fanylion am rôl Ofcom yn yr asesiad o berthnasedd, er mwyn i'r broses fod yn gliriach i randdeiliaid;
- Ychwanegu hyblygrwydd i Ofcom benderfynu a oes angen ymgynghori ar berthnasedd ar y cam asesu cychwynnol, gan ddileu dyblygu yn ein proses asesu lle bynnag y bo modd; a

- Darparu rhagor o arweiniad ar yr hyn rydym yn disgwyl ei weld yn asesiad gwerth cyhoeddus y BBC, a hynny ar sail ein profiad o adolygu'r asesiadau hyn hyd yma. Byddwn hefyd yn rhoi mwy o arweiniad i'r BBC a rhanddeiliaid ynghylch lle rydym yn credu y gallai'r BBC gynhyrchu gwerth cyhoeddus sylweddol drwy fynd i'r afael â'r heriau mae'n eu hwynebu o ran diwallu anghenion cynulleidfaoedd mewn marchnad sy'n newid yn gyflym.

Rydym hefyd wedi penderfynu gwneud rhai mân newidiadau i'r **gofynion a'r canllawiau Masnachu a Gwahanu**. Mae ein hychwanegiadau at y gofynion a'r canllawiau hyn yn rhoi mwy o eglurder ynghylch y gweithgareddau y mae ein rheolau'n berthnasol iddynt, a byddant yn sicrhau bod y BBC yn cynnwys y newidiadau y mae'n eu gwneud i ymateb i'n hadolygiad o BBC Studios.

Dim ond crynodeb byr a syml sydd yn y trosolwg hwn o'r ddogfen. Mae'r penderfyniadau rydym wedi eu gwneud mewn perthynas â'r gofyniad penodol, canllawiau, a'n rhesymeg wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.